



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Canllawiau anstatudol drafft ar
gyfer awdurdodau lleol ar addysg
ddewisol yn y cartref

Dyddiad cyhoeddi: **8 Mai 2015**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Gorffennaf 2015**

Canllawiau anstatudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg ddewisol yn y cartref

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd eich barn am ganllawiau anstatudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg ddewisol yn y cartref.
Sut i ymateb	Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 3 Gorffennaf 2015 fan hwyraf. Atebwch y cwestiynau ar y ffurflen ymateb gysylltiedig.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau Useful links: Ymgynghoriad blaenorol, gan gynnwys adroddiad cryno: <i>Cofrestru a monitro addysg yn y cartref</i> (2012) www.gov.wales/consultations/education/registeringandmonitoring/?skip=1&lang=cy Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Addysg a Sgiliau: 'Dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i gyflwyno cynllun cofrestru a monitro gorfodol i'r rhai sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref' (2014) www.gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2014/electivehomeeducation/?skip=1&lang=cy Canllawiau cyfredol, sydd i'w disodli gan y canllawiau newydd: <i>Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion</i> (2006), 'Adran 6: Addysg Ddewisol Gartref' www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy
Manylion cysylltu	I gael rhagor o wybodaeth: Y Gangen Lles Disgyblion Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: WellbeingShare@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1. Cefndir a chyd-destun	2
1.1 Cyflwyniad	3
1.2 Addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru	4
1.3 Dulliau addysgu yn y cartref	5
2. Y sefyllfa gyfreithiol	7
2.1 Tynnu disgybl oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol	8
2.2 Llunio Gorchymyn Mynychu'r Ysgol	9
2.3. Llywodraeth Cymru a hawliau plant	10
3. Ymagwedd awdurdodau lleol at addysg ddewisol yn y cartref	12
3.1 Ymyrraeth gynnar a datrys anghydfodau	12
3.2 Ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref	14
3.3 Ystyriaethau ymarferol	17
3.4 Gweithio gyda rhwydweithiau neu grwpiau addysg ddewisol yn y cartref	18
3.5 Cynorthwyo plant a phobl ifanc	20
4. Adolygu'r ddarpariaeth	24
4.1 Nodweddion y ddarpariaeth	25
4.2 Plant sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA)	27
4.3 Rhannu arferion da	29
5. Lles plant	30
5.1 Rhannu gwybodaeth	33
5.2 Cyrchoedd triwantiad	34
6. Casgliad	35

1. Cefndir a chyd-destun

Yn 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol i gyflwyno system orfodol o gofrestru a monitro ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Derbyniodd yr ymgynghoriad nifer fawr o ymatebion gan awdurdodau lleol, teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am addysg a phlant a phobl ifanc. Roedd mwyafrif y teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac asiantaethau sy'n cefnogi Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gwrthwynebu'r cynigion deddfwriaethol. Ond roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc yn cefnogi'r cynigion.

Ar ôl ystyried ymatebion yr ymgynghoriad, penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau beidio â bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth. Roedd yn glir i'r Gweinidog bod angen gwybodaeth mwy ddiweddar ynglŷn â'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, a bod angen diweddarau ac adnewyddu'r canllawiau presennol.

Wedi hynny, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil i Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, fel ffordd i gyfarwyddo ac ategu canllawiau anstatudol newydd i awdurdodau lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. Datblygwyd y canllawiau newydd hyn drwy broses ymgysylltu helaeth. Mae'r broses ymgysylltu hon wedi rhoi ystyriaeth i safbwyntiau awdurdodau lleol, y gymuned addysgu dewisol yn y cartref yng Nghymru, a rhanddeiliaid strategol allweddol.

Mae'r canllawiau yn gosod cyd-destun newydd i ddeall a chynorthwyo teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru. Blaenoriaeth bennaf yr ymagwedd hon yw sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref ar sail ddewisol drwy ddatblygu partneriaethau adeiladol rhwng teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref ac awdurdodau lleol.

1.1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y gall holl blant a phobl ifanc Cymru wireddu eu potensial gyda chymorth a chefnogaeth ysgolion a gwasanaethau cymorth addysgol o ansawdd uchel. Bydd mwyafrif helaeth y teuluoedd yng Nghymru yn dewis i'w plant gael eu haddysgu drwy'r system addysg brif ffrwd.

Ond y mae lleiafrif o rieni¹ sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Gelwir hyn yn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Yn ôl gwaith ymchwil ddiweddar a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru, mae nifer y rhieni sy'n dewis addysgu yn y cartref wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, a cheir dolen i'r data isod. Ond wrth i rieni hysbysu eu hawdurdod lleol eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref yn wirfoddol, ni chaiff pob plentyn sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref eu cyfrif yn y data hwn.

Cyhoeddiad ystadegol: Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2013/14

<http://gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?lang=cy>

Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2006 a oedd wedi eu cynnwys yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 47/2006, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, ac yn disodli'r canllawiau hynny. Mae'n ceisio helpu i adeiladu consensws ac ymddiriedaeth rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, a datblygu ymgysylltiad cadarnhaol a chymorth priodol. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar gyfoethogi profiadau addysgol plant a phobl ifanc, drwy sicrhau bod awdurdodau lleol a'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydweithio.

¹ Yn y canllawiau hyn, mae i riant yr un ystyr ac sydd yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 ac felly y mae'n cynnwys person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn a pherson sydd â gofal dros blentyn.

Lluniwyd y ddogfen hon ar gyfer awdurdodau lleol, yn arbennig mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sy'n cynorthwyo teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref neu sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â hwy. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i addysgwyr yn y cartref a grwpiau sy'n cynorthwyo addysg yn y cartref. Mae'n ceisio atgyfnerthu ymagwedd sy'n rhoi'r plentyn yn y canol. Mae'n tynnu ar enghreifftiau cadarnhaol o ymarfer yng Nghymru ac yn ceisio annog ymagweddau mwy cyson at Addysg Ddewisol yn y Cartref ledled Cymru.

Er y gwahaniaethau barn cryf ynglŷn â'r safbwynt deddfwriaethol presennol a ddaeth i'r amlwg drwy brosesau ymgynghori diweddar, mae gan rieni Addysg Ddewisol yn y Cartref ac awdurdodau lleol fudd gorau'r plentyn yn gyffredin. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar y tir cyffredin hwn wrth annog gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyrraedd y nod cyffredin hwn.

1.2 Addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru

Mae'r gymuned addysgu yn y cartref yng Nghymru yn boblogaeth amrywiol ac mae'n ymddangos ei bod yn tyfu, er nad yw'n glir ar ba gyfradd y mae hyn yn digwydd. Mae'r darlun yn amrywio ledled Cymru, gyda theuluoedd yn dewis addysgu eu plant yn y cartref ar sail amrywiaeth eang o gymhelliannau a rhesymau, gan gynnwys:

Rhesymau ideolegol neu athronyddol

Iechyd (gan gynnwys iechyd a lles emosiynol)

Rhesymau diwylliannol

Rhesymau crefyddol

Bwlio

Rhesymau yn gysylltiedig ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Dewis iaith

Taith bell i'r ysgol

Aros am le mewn ysgol o ddewis

I lawer sy'n addysgu yn y cartref, mae'r prif fanteision yn cynnwys hyblygrwydd, y gallu i deilwra dulliau yn fwy effeithiol, rhyngweithio mwy personol, mwy o annibyniaeth a rhyddid rhag bwlio a phwysau cyfoedion. Gall addysgu yn y cartref gynnig 'rhyddid cwricwlwm', gyda chanolbwynt ar feysydd pynciau sydd o fwyaf o ddiddordeb i'r plentyn. Yn ychwanegol at brosiectau o ddiddordeb personol i'r plentyn oddi mewn i bynciau traddodiadol, gall amrywiaeth y pynciau a addysgir hefyd fod yn ehangach, gyda seicoleg, athroniaeth, peirianeg, gwyddoniaeth amgylcheddol a chodio rhaglenni ymysg rhai enghreifftiau a enwyd gan deuluoedd.

Gallai rhieni addysgu eu plant mewn amrywiaeth eang o ffyrdd ac mewn nifer o wahanol amgylcheddau. Mae llawer o rieni o'r farn y gallant deilwra eu darpariaeth i ddiwallu anghenion ac arddulliau dysgu eu plant ar lefel unigol yn fwy effeithiol nag a ellir mewn dosbarth mawr sydd ag amrywiaeth eang o anghenion.

1.3 Dulliau addysgu yn y cartref

Er bod rhai dulliau a allai fod wedi eu nodi gan awdurdodau lleol mewn perthynas a natur a graddau addysg yn y cartref, nid yw'n ofynnol dilyn unrhyw gwricwlwm penodol na chyrraedd meini prawf o ran nifer yr oriau dysgu.

Gallai'r dulliau addysgu yn y cartref y gall teulu ddewis fod unrhyw le ar gontinwwm, o amserlen ffurfiol, strwythuredig sy'n bennaf seiliedig yn amgylchedd y cartref sydd ag agweddau yn debyg i sefyllfa ysgol; i addysg ymreolaethol neu sy'n cael ei harwain gan y plentyn; i an-addysgu radical (gweler Ffigur 1). Gall y dull a lunnir gael ei deilwra at anghenion, diddordebau ac arddulliau dysgu'r plentyn. Hefyd, gall amrywio dros amser a rhwng pynciau. Er enghraifft, gallai plentyn symud o ddull mwy ymreolaethol yn iau i ddull mwy strwythuredig ar gyfer TGAU. Dros flwyddyn, gallai addysg yn y cartref fod yn fwy strwythuredig yn y gaeaf ac yn fwy ymatebol i'r tywydd neu gyfleoedd lleol yn yr haf. Gallai rhai pynciau megis mathemateg gael eu cyflwyno mewn dull strwythuredig tra bo pynciau eraill megis hanes yn cael eu cyflwyno drwy brosiect ymreolaethol.

Cred rhai teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref bod hyblygrwydd y dulliau a'r cyfle i'w teilwra yn fwy ystyrlon i'r plentyn ac felly mae'r dysgu yn fwy cadarn.

Ffigur 1:



Strwythuredig

Amserlen neu raglen sefydlog sydd â'r cynnwys weithiau yn dilyn y cwriclewm cenedlaethol.

Dysgu ffurfiol neu â ffocws sy'n cyfrif am 3-5 awr y dydd, a chwarae rhydd neu brosiectau sy'n cael eu hysgogi gan y plentyn yn y prynhawn.

Teithiau, cyrsiau, gweithgareddau a chyfleoedd dysgu ychwanegol yn atgyfnerthu neu'n cadarnhau'r dysgu.

Dysgu ymreolaethol neu o dan arweiniad y plentyn

Caiff y dysgu ei gychwyn a'i ymgysylltu gan y dysgwr a'i hwyluso gan y rhiant.

Mae sawl dull methodolegol neu ideolegol fan hyn megis:

Gyrru gan uned neu brosiect
'Clasurol' – 3 cham o baratoi'r dysgwr i addysgu ei hun wedyn
'Charlotte Mason' – drwy ymgysylltu â llyfrau sydd wedi'u hysgrifennu'n dda.

An-addysgu radical

Caiff y dysgwr ei annog i gychwyn ar ei ddysgu ei hun drwy archwilio ac ymgysylltu â gweithgareddau y maent yn eu gwneud neu'n eu canfod eu hunain.

Rhieni'n hwyluso mynediad at gyfleoedd ond yn ceisio peidio â thywys nac arwain.

2. Y sefyllfa gyfreithiol

Mae Erthygl 2 o BroTOCOL 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:

‘Ni wrthodir i neb eu hawl i gael addysg. Wrth arfer unrhyw swyddogaethau sydd ganddi o ran addysg ac addysgu, mae’n rhaid i’r Wladwriaeth barchu hawl rhieni i sicrhau bod yr addysg a’r addysgu yn cydymffurfio a’u hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol eu hunain.’

Mae gan rieni hawl i addysgu eu plant yn y cartref cyhyd â’u bod yn cyflawni gofynion Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar rieni pob plentyn o oedran ysgol gorfodol i beri iddo neu iddi dderbyn addysg amser llawn sy’n addas i’w oedran, gallu neu ddoniau, ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo neu ganddi, naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd mewn ysgol neu fel arall.

O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg ac addasrwydd yr addysg honno:

(1) Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i’w galluogi i nodi (i’r graddau y mae’n bosibl gwneud hynny) unrhyw blant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ond —

- (a) nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, a
- (b) nac ydynt yn derbyn addysg addas heblaw am mewn ysgol.

Mae “addysg addas”, mewn perthynas â phlentyn, yn golygu addysg amser llawn effeithlon sy’n addas i’w oedran, gallu a doniau ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo.”

2.1 Tynnu disgybl oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol

Nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i rieni hysbysu awdurdodau lleol o'r ffaith eu bod yn bwriadu addysgu yn y cartref. Mae hyn yn ei gwneud yn arbennig o anodd i awdurdodau lleol ddilyn trywydd grwpiau penodol o blant, er enghraifft:

Rhai nad ydynt erioed wedi Mynychu'r Ysgol a gynhelir;

Rhai nad ydynt erioed wedi Mynychu'r Ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw;

Rhai sydd wedi gorffen addysg gynradd mewn un ysgol ond nad ydynt wedi dechrau addysg uwchradd mewn ysgol arall; a

Rhai lle mae'r ysgol y buont yn ei mynychu wedi cau.

Dylai rhieni y mae eu plant yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sicrhau y caiff eu henwau eu tynnu oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol pan maent yn eu tynnu o'r ysgol i'w haddysgu yn y cartref er mwyn osgoi bod yn atebol i gael eu herlyn am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol lle y mae wedi cofrestru. Ond os yw'r plentyn yn Mynychu'r Ysgol arbennig o dan drefniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol, bydd angen caniatâd ychwanegol gan yr awdurdod lleol cyn y gall y plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Wedi i'r ysgol dderbyn llythyr gan riant plentyn yn ei hysbysu bod y disgybl yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, rhaid i enw'r plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr derbyn (rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010). Rhaid i'r ysgol (gan gynnwys y rhai yn y sector annibynnol) hysbysu'r awdurdod lleol (yn rhoi enw a chyfeiriad y plentyn) o fewn 10 diwrnod ysgol i'r plentyn gael ei dynnu o'r ysgol (rheoliad 12(3)).

Unwaith y bydd dysgwr wedi ei dynnu oddi ar gofrestr ysgol, byddai angen i gais newydd gael ei gyflwyno i'r plentyn gael ei dderbyn i ysgol ar ddyddiad diweddarach, pe byddai'r dysgwr yn dymuno dychwelyd i ysgol.

Ar unrhyw gyfrif, ni ddylid rhoi pwysau ar rieni i dynnu disgyblion oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad neu erlyniad.

Os yw'r awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad gan ysgol bod plentyn wedi ei dynnu o'r ysgol gyda'r bwriad o gael ei addysgu yn y cartref, dylai'r awdurdod lleol gydnabod derbyn yr hysbysiad hwn gan rieni. Dylai'r awdurdod lleol ystyried p'un a oes tystiolaeth bresennol i awgrymu achos o bryder ynglŷn â thynnu'r plentyn o'r ysgol. Dylid ceisio cyngor gan wasanaethau lles addysg os oes pryderon.

2.2 Llunio Gorchymyn Mynychu'r Ysgol

O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, os yw'n ymddangos i awdurdod lleol nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas, naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd mewn ysgol neu fel arall, gall yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad ar y rhiant yn ei gwneud yn ofynnol i'w bodloni (mewn cyfnod o o leiaf 15 diwrnod a nodir yn yr hysbysiad) bod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath. Mae diffiniad addysg addas yr un â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 fel a nodir uchod. Os yw'r rhiant yn methu â bodloni'r awdurdod lleol a bod yr awdurdod yn ystyried ei bod yn hwylus y dylai'r plentyn fynychu ysgol, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol ar y rhiant. Mae'r ddyletswydd hon yr un mor berthnasol mewn perthynas â phob plentyn, p'un a yw wedi Mynychu'r Ysgol awdurdod lleol yn yr ardal yn flaenorol neu beidio. Rhaid i'r Gorchymyn Mynychu'r Ysgol fod mewn ffurf ragnodedig a' i gwneud yn ofynnol i'r rhiant beri i'r plentyn fod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a enwir yn y gorchymyn. Mae methu â chydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yn drosedd, oni bai y gall y rhiant ddangos bod y plentyn yn derbyn addysg addas heblaw mewn ysgol.

Dylid parchu dymuniad rhiant i addysgu plentyn yn y cartref a, lle y bo'n bosibl, dylid gwneud ymdrech i ddatrys materion ynghylch darpariaeth drwy broses o ddeialog barhaus cyn cyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Dylai awdurdodau lleol ystyried yr angen i gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol fesul achos, a bydd angen i benderfyniad roi ystyriaeth i amgylchiadau achosion unigol.

I gael mwy o wybodaeth am Orchmynion Mynychu'r Ysgol, gweler y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan drwy'r ddolen isod:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/framework/?lang=Cy>

2.3. Llywodraeth Cymru a hawliau plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sylfaen i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i roi lle canolog i'r Confensiwn a hawliau plant yn ei holl waith ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gosod allan ymrwymiad i "barhau i ddefnyddio'r Saith Nod Craidd yn fframwaith cenedlaethol i ddatblygu polisi i blant a phobl ifanc." Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth i'r hawliau plant a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn gosod allan y trefniadau i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw priodol i hawliau plant wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau.

Dyluniwyd gwefan Gwneud Pethau'n Iawn (dolen isod) i helpu ymarferwyr, llunwyr polisi a phob rhanddeiliad i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu safbwynt hawliau plant yn eu gwaith:

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Fel yn achos yr holl wasanaethau presennol i blant a phobl ifanc, ac yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dylid cynnwys llais y plentyn ym mhob proses benderfynu ac adolygu mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae Erthygl 12 yn darparu bod gan blant yr hawl i ddweud beth maent hwy yn meddwl ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac y dylid rhoi ystyriaeth i'w barn. Dylai hyn gynnwys unrhyw broses o gyfryngu a datrys anghydfod, a hefyd mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynglŷn ag addysg. Dylai awdurdodau lleol drwy eu gwasanaethau sy'n cynorthwyo cyfranogiad plant a phobl ifanc, hefyd ystyried ffyrdd y gellid clywed lleisiau unigol a chyfunol plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

3. Ymagwedd awdurdodau lleol at addysg ddewisol yn y cartref

3.1 Ymyrraeth gynnar a datrys anghydfodau

I rieni sy'n dewis tynnu eu plentyn o'r ysgol er mwyn addysgu yn y cartref, nid fydd y penderfyniad fel arfer wedi dod o unlle. Mewn rhai achosion fe all fod hanes o anghytuno rhwng y teulu a'r ysgol neu'r awdurdod lleol. Yn aml, bydd natur yr anghytuno yn deillio o beth sydd orau i'r plentyn dan sylw. Gallai rhai achosion gynnwys pryderon am fwlio sydd heb eu datrys, anghytuno dros y trefniadau i ddiwallu anghenion y plentyn, neu hyd yn oed wrthdaro gydag aelod o staff yr ysgol. Yn yr achosion hyn, cynghorir rhieni i barhau i gynnal cyswllt ag ysgol y plentyn i drafod eu pryderon. Ond mae gan bob ysgol ac awdurdod lleol weithdrefnau cwyno yn eu lle y gellir eu dilyn os na lwyddwyd i ddatrys pryderon y rhieni.

Amlinellir y broses sefydledig i rieni ei dilyn pan fo ganddynt bryderon am yr ysgol yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 011/2102, *Gweithdrefnau Cwyno i gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru*. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir fod â phroses gwyno sydd wedi ei chyhoeddi ac sydd ar gael. Mae manylion pellach i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru fan hyn:

www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/schoolcomplaints

Er lles y plentyn, dylai datrys y fath bryderon fod yr amcan pwysicaf. Bydd gan bob awdurdod lleol drefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaethau rhieni lleol a all helpu i atal anawsterau rhag datblygu i fod yn anghydfodau, a sicrhau bod gan rieni fynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau priodol a chytbwys.

Mewn achosion o anghydfodau o'r fath, dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff pob agwedd ar ddarpariaeth Addysg Heblaw am Mewn Ysgol bosibl ei harchwilio gyda theulu'r disgybl. Dylai hyn helpu i leihau nifer yr achosion o blant yn cael eu tynnu o addysg fel gweithred yn niffyg dim arall.

Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gadw mewn cof bod rhieni yn aml yn dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref os daw hi i'r pen a phan na all anghydfodau o'r fath gael eu datrys.

Efallai y bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol eisiau ystyried cychwyn proses o gyfryngu er mwyn datrys y fath wrthdaro er lles a chynnydd addysgol y plentyn (gweler enghreifftiau ymarferol yn ffigur 2). Gallai hyn gynnwys defnyddio swyddogion arbenigol pe byddai angen, a gwasanaethau eirioli arbenigol. Y nod ddylai fod dod i benderfyniad cadarnhaol er budd pennaf y plentyn. Argymhellir y dylid cynnal cyfarfodydd dilynol unwaith y mae penderfyniad wedi'i wneud i sicrhau cytundeb parhaus.

Ffigur 2: Enghreifftiau ymarferol o ymyrraeth gynnar a datrys gwrthdaro

Caerdydd 'Panel Mynediad Teg': Panel aml-ddisgyblaethol yw hwn, sydd â'r nod o adnabod materion a allai arwain at Addysg Ddewisol yn y Cartref a gweithio gyda theuluoedd ac ysgolion i geisio datrys y sefyllfa. Mae'r panel yn cynnwys Rheolwyr Gweithredol ym maes Lles Addysg, Gwasanaeth Ieuencid, Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS); cynrychiolwyr o Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA); ac mae prifathrawon hefyd yn bresennol ar rota. Gall unrhyw un o'r gweithiwr proffesiynol gyfeirio achos i gael ei glywed gan y panel cyhyd ag y gall gyfiawnhau y rhoddwyd cynnig ar gyfres o fesurau i ddatrys y mater eisoes. Bydd y panel yn datblygu pecyn ymyrraeth a chymorth i ddatrys materion mewn ystod o feysydd; Anghenion Addysgol Arbennig, presenoldeb, iechyd a lles ac ymddygiad.

Ceredigion 'Gweld yr arwyddion': prif rôl cynghorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref yw fel Swyddog Lles Addysg. Y mae felly mewn sefyllfa dda i sicrhau y caiff materion a allai arwain at rhieni'n dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref eu datrys gyda chymorth ac arweiniad. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn caniatáu mynediad at y gwasanaeth eirioli cyffredinol i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion a ddarperir gan Tros Gynnal. Gall hyn olygu bod llais y plentyn a'r teulu yn cael ei glywed mewn materion a allai arwain at Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Mewn achos o ddad-gofrestru o ysgol, gwneir cyswllt ar unwaith i sicrhau bod y dewis i gael addysg yn cartref yn un cadarnhaol, ac nad penderfyniad ydyw sy'n ymateb i fater sydd heb ei ddatrys neu angen heb ei ddiwallu.

3.2 Ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref

Mae llawer o deuluoedd sydd wedi dewis addysgu yn y cartref yn dweud iddynt wneud hynny ar ôl llawer o bryderu a phwyso a mesur llawer o ffactorau. I rai teuluoedd mae dewis addysgu yn y cartref yn golygu gwneud sawl aberth. Gall hyn gynnwys byw ar un cyflog wrth i un rhiant ymroi ei amser i addysgu'r plentyn neu'r plant. Mewn llawer o achosion, gall arwain at gost ariannol ychwanegol i deuluoedd wrth iddynt ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gael gafael ar adnoddau a thalu am arholiadau.

Wrth gysylltu â theuluoedd, dylai awdurdodau lleol geisio darparu cymorth a chyngor priodol i rieni sydd eu hangen arnynt i wella canlyniadau addysg eu plentyn.

Gall y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a rhieni plant a addysgir yn y cartref gael effaith bwysig a chadarnhaol ar addysg y plentyn. Dylai awdurdodau lleol felly ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau y mae teulu penodol wedi dewis addysgu yn y cartref. Mae adeiladu perthynas waith adeiladol a cheisio deall ymagwedd y rhieni yn allweddol. Mae'n bwysig felly bod gan staff yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynorthwyo addysg yn y cartref ymagwedd a dealltwriaeth gefnogol sy'n canolbwyntio ar gydweithio i wella addysg y plentyn (gweler enghreifftiau ymarferol o ymgysylltu â theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Ffigur 3). Nid yn unig bod y ymagweddau yn cyfrannu at adeiladu a chynnal perthynas waith gref ar gyfer y plentyn, ond gallant hefyd gynorthwyo i ailadeiladu ymddiriedaeth mewn system y mae rhai yn teimlo sydd wedi eu siomi. Gallai hyn fod yn bwysig yn y dyfodol os yw rhieni yn dechrau ystyried dychwelyd eu plant i'r ysgol.

Ffigur 3: Enghreifftiau ymarferol o ymgysylltu â theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref

Ynys Môn

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal cyfarfodydd lleol ddwywaith y flwyddyn i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref. Yn y digwyddiadau hyn caiff gwybodaeth ei rhannu, a rhoddir hyfforddiant ar bynciau perthnasol fel diogelwch ar y we gan yr heddlu a chymwysterau TGAU gan fyrdau arholi. Mae'r digwyddiadau yn rhoi cyfle i gael mynediad at wasanaethau fel Gyrfa Cymru ac iechyd.

Caerffili

Cynhelir boreau agored/coffi yn Nhŷ Graddfa. Mae hwn yn lle cymunedol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant a darpariaeth ar gyfer mamau ifainc. Mae'r boreau coffi yn gweithredu fel canolfan galw heibio, gyda chynghor, gweithgareddau, celf a chrefft, adnoddau ar gyfer cyrsiau TGAU, a chyfle i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref gymdeithasu. Mewn digwyddiad arbennig cyn y Nadolig, aethpwyd â'r 'plant na fyddai'n cael daith ysgol' ar ymweliad i'r sŵ lleol. Mae'r cyfleuster hwn hefyd yn ganolfan arholiad gofrestredig i ymgeiswyr Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Mae'r awdurdod lleol yn dosbarthu cylchlythyr sy'n cynnwys newyddion am Addysg Ddewisol yn y Cartref, rhifau ffôn defnyddiol, a digwyddiadau sydd ar y gweill.

Gobeithir y bydd hyn yn datblygu i gynnwys rhannu arferion a syniadau da gyda chyfraniadau gan deuluoedd a phlant Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Mae'n bwysig sefydlu ymagwedd gyson at addysgwyr yn y cartref ledled Cymru. Bydd llawer o addysgwyr yn y cartref wedi symud o un awdurdod lleol i'r llall. Gallai hyn fod yn seiliedig yn rhannol ar ddewisiadau ffordd o fyw, ond gallai hefyd fod yn rhannol seiliedig ar ymagweddau at addysgu yn y cartref mewn awdurdod lleol penodol o gymharu ag awdurdod arall.

3.3 Ystyriaethau ymarferol

Dylai awdurdodau lleol roi enw cyswllt penodol i rieni sy'n addysgu yn y cartref ac mai rôl y cyswllt hwn yw darparu cyngor a chymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Argymhellir bod gan y swyddog hwn gefndir proffesiynol mewn addysg ac y gall ddeall a chefnogi amrywiaeth o athroniaethau addysgol. Dylai rôl y swyddog gynnwys cynnal perthynas gadarnhaol â rhieni sy'n addysgu yn y cartref, codi ymwybyddiaeth o addysg yn y cartref yn yr awdurdod lleol a chyfeirio at rwydweithiau cymorth priodol presennol a chyfleoedd addysgol presennol a allai fod yn fuddiol i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Efallai y byddai awdurdodau lleol yn dymuno ystyried gweithio yn eu consortiwm rhanbarthol, er enghraifft, i hwyluso cydlynnydd Addysg Ddewisol yn y Cartref neu un pwynt cyswllt. Gallai hyn weithredu fel ffordd ymarferol o sicrhau y rhoddir cyngor a chymorth mwy cyson a chynhwysol ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol. Gan weithio ar sail ranbarthol, gallai consortia lunio eu hymatebion rhanbarthol eu hunain i Addysg Ddewisol yn y Cartref, wedi eu teilwra i gymunedau'r ardal, gan weithio gyda phartneriaid ar lefel ranbarthol.

Gallai hefyd fod o gymorth wrth ddatblygu perthynas gadarnhaol i'r swyddog cyswllt gael ei ystyried yn 'gynghorydd', 'ymgyngghorydd addysgu yn y cartref' neu 'gydlynnydd addysgu yn y cartref' yn hytrach nag 'arolygydd', 'aseswr', 'gweithiwr cymdeithasol addysg' neu 'swyddog lles addysg'. Dylai awdurdodau lleol drefnu hyfforddiant ar y gyfraith a dulliau addysgu yn y cartref ar gyfer pob un o'u swyddogion sydd â chyswllt â theuluoedd addysgu yn y cartref.

Argymhellir y dylai awdurdodau lleol fod â datganiad polisi ysgrifenedig ar blant a addysgir yn y cartref a'u teuluoedd, wedi'i lunio mewn ymgynghoriad â theuluoedd sydd yn addysgu yn y cartref. Gallai hyn gynnwys manylion rhwydweithiau cyngor a chymorth, cysylltiadau at wasanaethau cymorth ieuenctid neu ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol, ynghyd â manylion polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol ynglŷn ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Dylai hyn fod ar gael i bob teulu sy'n dewis addysgu yn y cartref. Wrth gyfathrebu â theuluoedd, dylai awdurdodau lleol ystyried unrhyw ystyriaethau diwylliannol a/neu ieithyddol.

3.4 Gweithio gyda rhwydweithiau neu grwpiau addysg ddewisol yn y cartref

Dylai awdurdodau lleol geisio datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda rhwydweithiau addysgu yn y cartref yn eu hardal. Mae eisoes enghreifftiau o berthynas gefnogol mewn nifer o awdurdodau lleol (gweler enghreifftiau ymarferol yn Ffigur 4). Mae hyn yn benodol o gynorthwyol i deuluoedd sydd yn ddiweddar wedi penderfynu addysgu yn y cartref ac sydd arnynt angen cymorth a chefnogaeth. Mae'r fath grwpiau yn aml yn cwmpasu sawl ardal awdurdod lleol. Mae i rai statws elusennol, ac eraill yn rhwydweithiau llai ffurfiol. Gall y grwpiau hyn fod o gymorth amhrisiadwy i rieni wrth eu cynghori, eu harwain, a hyd yn oed eu hysbrydoli wrth iddynt gychwyn addysgu yn y cartref. Gallent, uwchlaw popeth, gynnig profiadau, cyrsiau ac ymweliadau dysgu pwysig i gyfoethogi darpariaeth addysg yn y cartref i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Gall y grwpiau gynnig cyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc ddatblygu cyfeillgarwch gyda phlant a phobl ifanc eraill sy'n derbyn addysg yn y cartref. Efallai nad oes gan y rhieni fawr ddim profiad o addysgu yn y cartref, neu ddim profiad o gwbl. Gallai gymryd amser iddynt sefydlu arfer addas, a gwneud y newidiadau mawr sydd yn aml yn angenrheidiol wrth addysgu yn effeithiol yn y cartref. Os ydynt yn gyfan gwbl newydd i addysgu yn y cartref, efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r math o gymorth a chynghor sydd ar gael iddynt. Efallai nad ydynt chwaith yn ymwybodol o rwydweithiau cymorth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael ym maes addysgu yn y cartref. Os yw awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r fath grwpiau neu rwydweithiau, efallai y dymunant gynnig y manylion cyswllt i deuluoedd sy'n newydd i Addysg Ddewisol yn y Cartref neu'n newydd i'r ardal.

Yn ychwanegol, argymhellir bod swyddogion awdurdodau lleol, yn eu cyswllt â'r grwpiau hyn, yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu a gwarchod plant sydd eisoes ar gael i amrywiaeth o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ffigur 4: Enghraifft ymarferol yn cefnogi grwpiau Addysg Ddewisol yn y Cartref

Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr awdurdod lleol ac Addysgwyr Cartref Pen-y-bont ar Ogwr yn beth unigryw yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod lleol yn darparu neuadd gymunedol i'r grŵp i'w defnyddio am un diwrnod yn yr wythnos. Mae hwn yn gyfleuster amlbwrpas sydd â lle mawr i chwarae ynghyd ag ystafelloedd llai ar gyfer dysgu â ffocws. Maent yn cyflwyno TGAU Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth, Gwyddoniaeth Amgylcheddol, ac amrywiaeth o bynciau eraill gan gynnwys TGAU mewn Seryddiaeth. Mae'r grŵp hefyd yn cyflwyno Gwobr Jon Muir, sef dyfarniad amgylcheddol sy'n annog pobl o bob cefndir i gysylltu, mwynhau a gofalu am leoedd gwyllt drwy raglen strwythuredig ond eto'n hyblyg. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi grant o £5,000 y flwyddyn i'r grŵp, sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu am arholiadau TGAU. Y llynedd cymerwyd 46 TGAU drwy'r grŵp hwn. Mae oddeutu 200 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda'r grŵp. Mae rhai o'r rhain yn wybyddus i'r awdurdod lleol, ac mae eraill yn dymuno peidio â bod. Perchir y dymuniad hwn gan y grŵp a chan yr awdurdod lleol. Mae dau o'r addysgwyr cartref wedi eu hyfforddi i fod yn oruchwylwyr arholiad. Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Bu'r grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuencid lleol, a chafwyd credydau Rhwydwaith y Coleg Agored a gweithdai yn seiliedig ar faterion penodol. Maent wedi ymuno â rhaglen Cynllun Gwobr Dug Caeredin yn YMCA Porthcawl. Yn ddiweddar, bu'r grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â gymdeithas randiroedd i adfywio darn o dir a datblygu rhandir. Mae hyn yn clymu i mewn â TGAU Gwyddoniaeth Amgylcheddol a byddai'n galluogi'r plant a'r bobl ifanc i gyflawni prosiect sydd o fudd i'r gymuned ehangach. Mae rhai o arweinwyr grŵp Addysgwyr Cartref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i grwpiau o weithwyr proffesiynol aml-asiantaeth yn yr awdurdod lleol ynglŷn ag addysgu yn y cartref. Gwnaed hyn yn ddi-dâl.

3.5 Cynorthwyo plant a phobl ifanc

Nid oes gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i roi cymorth ariannol i deuluoedd neu rwydweithiau Addysg Ddewisol yn y Cartref. Os nad yw plentyn wedi cofrestru gydag ysgol, nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn unrhyw gyllid ar gyfer y plentyn hwn, ac felly nid oes rheidrwydd cyfreithiol arno i drosglwyddo unrhyw gymorth ariannol i rieni i gynorthwyo gyda darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Lle y bo'n bosibl, dylai awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at gyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yn eu hardal. Mae'n bwysig cofio mai penderfyniad y rhieni yw addysgu yn y cartref. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion barchu dewis rhieni. Ni ddylai'r dewis hwn eithrio plant a phobl ifanc rhag manteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth fel cyngor gyrfaol a gwasanaethau ieuencid sydd ar gael iddynt ym mhob ardal awdurdod lleol. Mewn llawer o achosion, mae'r fath ddarpariaeth yn agored ac yn cynnig i bobl ifanc ystod eang o gyfleoedd dysgu anffurfiol ac achrededig, a mynediad at gymorth. Gall hyn gyfoethogi eu dysgu a'u lles.

Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn darparu cysylltiadau at wasanaethau cymorth ieuencid, er enghraifft, drwy becynnau gwybodaeth i rieni plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref. Mae eraill yn hyrwyddo mynediad at wasanaethau cymorth addysgol arbenigol fel seicoleg addysg a nyrsys ysgol. Argymhellir bod gan y swyddogion sydd â chyfrifoldeb am gynorthwyo ac ymgysylltu â'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref ym mhob awdurdod lleol y wybodaeth ddiweddaraf am ystod y fath wasanaethau sydd yn eu hawdurdod lleol. Bydd hyn yn eu galluogi i gynghori teuluoedd am ddarpariaeth briodol a allai gyfoethogi'r darpariaeth addysgol i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Dylai'r rhain gynnwys rhwydweithiau lleol i ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, er enghraifft fforymau ieuencid, a ffynonellau cyngor a chymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion ieuchyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ar gyfer rhai categorïau o ddisgyblion ysgol a phlant eraill². Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gall plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref hawl i fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Dyle'r awdurdod lleol roi gwybodaeth i addysgwyr cartref sydd â diddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gan holl awdurdodau lleol Cymru wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc 11 i 25 oed. Mae hyn o ganlyniad i gyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol yn 2002 i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn narpariaeth wasanaethau cymorth ieuenctid³. Diffinnir gwasanaethau cymorth ieuenctid fel y gwasanaethau a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn annog, galluogi neu gynorthwyo unigolion ifainc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i

- a) Gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant,
- b) Manteisio ar gyfleoedd gwaith, neu
- c) Cymryd rhan yn effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau"

(gweler enghreifftiau ymarferol yn Ffigyrau 5 a 6).

² Adran 92 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

³ Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002

Mae'r Fframwaith ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn rhoi enghreifftiau o sut i weithredu dulliau wedi'u targedu wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.⁴ Mae gan y fframwaith rôl bwysig wrth weithredu dulliau mwy effeithiol a systematig o nodi pobl ifanc sydd mewn risg o fod yn NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) sydd arnynt angen cymorth, a gwneud yn siŵr eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt fel eu bod ar y trywydd cywir unwaith yn rhagor. Mae gan awdurdodau lleol y cyfrifoldeb am weithredu'r fframwaith. Cyflwynwyd dwy weithred newydd yn y fframwaith. Y cyntaf yw cynnig gweithiwr arweiniol mewn sefydliad perthnasol a all ddarparu parhad cymorth a chyswllt i'r bobl ifanc hynny sydd â'r risg mwyaf o ymddieithrio. Yr ail yw datblygu Gwarant Ieuenctid rhagweithiol, sy'n golygu cynnig, derbyn a chychwyn ar le addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gall dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref fanteisio ar y gwasanaeth hwn.

Ffigur 5: Enghraifft ymarferol – cysylltiadau ag Addysg Bellach / addysg o dan 16 oed

Ceredigion

Mae'r awdurdod lleol yn hwyluso cysylltiadau â Choleg Ceredigion i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Gall plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref wneud cais i astudio ar amrywiaeth o gyrsiau mewn pynciau TGAU a galwedigaethol. Mae'r awdurdod lleol yn darparu llythyr i'r ymgeiswyr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cadarnhau eu bod wedi eu haddysgu yn y cartref.

Mae'r cyrsiau poblogaidd yn cynnwys cwrs amser llawn cyn-TGAU sy'n cynnig pynciau, fel Cyfryngau Creadigol a Pherfformio yn ychwanegol at elfen greiddiol (yn cynnwys TG, Llythrennedd, Rhifedd a Chymraeg); Diploma Rhagarweiniol BTEC mewn Astudiaethau Galwedigaethol; a dosbarthiadau nos TGAU. Mae'r holl gyrsiau yn cynnig parhad a dilyniant i gyrsiau TGAU.

⁴ <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy>

Ffigur 6: Enghraifft Ymarferol – hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref

Sir Gaerfyrddin

Gyda chydysyniad y rhieni a'r plentyn, gall y Cyngorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref atgyfeirio'r person ifanc at lechyd Da os teimlir y gallai elwa ar raglen ymyrraeth fer i helpu gydag achosion o hunan-barch isel, problemau iechyd, camddefnyddio sylweddau neu broblemau yn deillio o fwlio. Mae'n brosiect uchel ei barch ac yn cael ei groesawu. Ystyrir ei fod yn rhaff achub i rai plant sydd wedi eu datgofrestru o'r ysgol (yn benodol oherwydd bwlio).

4. Adolygu'r ddarpariaeth

Fel y tynnwyd sylw ato ym Mhennod 2, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i nodi'r plant hynny sydd heb gofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. Dylai rhieni sy'n addysgu yn y cartref felly gael eu hannog i fanteisio ar y cynnig o gyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol. Argymhellir y caiff cyfarfod cychwynnol ei gynnal gyda'r teuluoedd i drafod eu darpariaeth ac unrhyw anghenion o ran cyngor a chymorth allai fod ganddynt. Dylid cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliadau sy'n dderbyniol i'r bawb.

Wedi hynny, argymhellir y dylai'r awdurdod lleol geisio cynnal cyswllt gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref o leiaf yn flynyddol. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hystyried yn gyfle i roi gwybodaeth a chymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, i wrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac ymateb iddynt, ynghyd ag ystyried tystiolaeth bod addysg addas yn cael ei chyflwyno. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf enghreifftiau penodol o ddysgu e.e. lluniau/paentiadau/modelau, dyddiaduron o weithgaredd addysgol, prosiectau, asesiadau, samplau o waith, llyfrau, ymweliadau addysgol ac ati. Dylid gwneud cyswllt yn ysgrifenedig fel arfer a dylai ofyn am gyfarfod neu am adroddiad wedi'i ddiweddarau. Dylai'r awdurdod lleol lunio adroddiad yn dilyn cyswllt o'r fath a dylid rhoi copi i'r teulu yn nodi p'un a oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bryderon am y ddarpariaeth addysg. Dylai'r adroddiad roi manylion unrhyw argymhellion a wneir gan yr awdurdod lleol ac unrhyw gamau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol ar ran y rhieni.

Yn dilyn unrhyw alwadau ffôn, dylid llunio cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn a drafodwyd ac a gytunwyd.

Yn y cyfarfodydd hyn, dylid trafod barn y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref am yr addysg y maent yn ei derbyn, eu dewisiadau, eu dyheadau a'u huchelgeisiau.

Gall ymagwedd sy'n ceisio deall y ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r plentyn fod yn sail i gyngor a chymorth mwy perthnasol i deuluoedd, ac felly cynorthwyo i adeiladu perthynas dda. Drwy'r math hwn o ymagwedd, a thrwy adeiladu ymddiriedaeth, y gallai rhieni fod yn fwy parod i ganiatáu mynediad i'w darpariaeth a rhannu eu hathrawiaeth a'u hymagwedd. Nid oes gan awdurdodau lleol yr hawl i fynnu arsylwi'r addysg yn y cartref, ac os yw rhiant yn dewis peidio â chaniatáu mynediad i'w cartref, gellir gwneud trefniadau eraill. Dylai'r awdurdod lleol drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gyda'r teuluoedd, gyda'r bwriad i'w helpu i wella eu darpariaeth er budd pennaf y plentyn.

4.1 Nodweddion y ddarpariaeth

Wrth ystyried darpariaeth y rhieni, efallai y bydd yr awdurdodau lleol yn dymuno ystyried y nodweddion a restrir isod. Drwy hwyluso mynediad i rwydweithiau a chymunedau Addysg Ddewisol yn y Cartref, gall awdurdodau lleol gynorthwyo teuluoedd i ddatblygu'r ymagweddau hyn:

Bod y rhieni neu'r gofalwyr yn ymwneud yn gyson â chyflenwi'r ddarpariaeth mewn sefyllfa sy'n seiliedig ar y teulu yn bennaf
Cydnabyddiaeth o anghenion, dyheadau ac arddulliau dysgu'r plentyn
Cyfleoedd i'r plentyn gael ei ysgogi gan ei brofiadau/phrofiadau dysgu
Mynediad i adnoddau/deunyddiau sydd eu hangen er mwyn darparu addysg yn y cartref i'r plentyn, megis papur a phennau, llyfrau a llyfrgelloedd, deunyddiau celf a chreffft, ymarfer corff, TGCh a'r cyfle i ryngweithio'n briodol gyda phlant ac oedolion eraill.
Cynnwys Gyrfa Cymru ar gam priodol
Datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd sy'n addas i oedran, dawn a gallu'r plentyn ac ystyried unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo/ganddi.

Dylai awdurdodau lleol ystyried y gall plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gael mwy o gyswllt un i un nag mewn ysgol, y gall addysg fod yn digwydd y tu allan i 'oriau ysgol arferol' ac y gall y math o weithgarwch addysgol a wneir fod yn amrywiol a hyblyg. **Nid** yw'n ofynnol i rieni sy'n addysgu yn y cartref:

Addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Bod ag amserlen

Bod â lleoliad sydd ag offer i safon penodol

Marcio gwaith a wnaed gan eu plentyn

Gosod oriau y lle bydd addysg yn cael ei darparu

Bod ag unrhyw gymwysterau penodol

Cwmpasu'r un maes llafur ag unrhyw ysgol

Gwneud cynlluniau manwl ymlaen llaw

Dilyn oriau, dyddiau neu dymhorau ysgol

Rhoi gwersi ffurfiol

Creu cyfleoedd cymdeithasu i grŵp o gyfoedion ar ffurf ysgol

Cyrraedd safonau penodol oedran ysgol

Er hyn, dylai awdurdodau lleol gynnig cyngor a chymorth priodol i rieni ar y materion hyn pe gofynnir am hynny gan y rhieni.

Nid yw'n gyfreithiol ofynnol i blant ddilyn cyfres benodol o gymwysterau. Gallai cydran asesu mewnol llawer o gymwysterau fel TGAU, asesiadau athro er enghraifft, ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr allanol eu cyflawni. Ond nid y rhain yw'r unig gymwysterau y gall ymgeiswyr allanol eu dilyn. Gallai fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol gynnig gwybodaeth i rieni a'u plant am gymwysterau eraill a'r trefniadau fyddai'n rhaid iddynt wneud er mwyn i'r plant eu dilyn. Dylai awdurdodau lleol hefyd roi gwybod i rieni, a'u plant lle y bo'n briodol, am y problemau posibl y gallent eu hwynebu os nad yw eu cymwysterau yn cael eu cydnabod yn ddigonol gan gyflogwyr, neu sefydliadau addysg bellach neu uwch.

Lle mae teuluoedd yn dymuno gwneud cymwysterau ffurfiol fel TGAU, dylai awdurdodau lleol hwyluso cyngor ar ddewisiadau cymwysterau, ac annog defnyddio adnoddau fel Dysgu Cymru (Ffigur 7). Argymhellir bod staff awdurdod lleol yn cynorthwyo teuluoedd i ganfod lleoliad lleol addas lle y gall plant a phobl ifanc sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref sefyll arholiadau.

Ffigur 7: Dysgu Cymru

Adnodd sy'n seiliedig ar y we yw Dysgu Cymru, wedi ei ddylunio i ddiwallu anghenion addysgwyr ac ymarferwyr a gwella safonau darparwyr dysgu ledled Cymru:

<http://dysgu.cymru.gov.uk/>

Gyda ffocws clir ar wella, mae ar bob tudalen ystod o gymorth a chynghor wedi eu teilwra, gan ganoli'r wybodaeth sydd ar gael a symleiddio'r gwaith o chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r safle hefyd wedi ei ategu gan blatfform dysgu 'Hwb', sy'n lletya casgliad cenedlaethol o adnoddau digidol, cynnwys wedi ei greu gan ddefnyddwyr a meysydd cydweithredol: www.hwb.cymru.gov.uk

Gellir cael mynediad i blatfform dysgu Hwb drwy dudalen flaen Dysgu Cymru.

4.2 Plant sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig

Gall rhieni ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol y plentyn o dan adran 328 neu 329 o Ddeddf Addysg 1996.

Os oes gan blentyn ddatganiad anghenion addysgol arbennig ac yn cael ei (h)addysgu yn y cartref gan y rhieni, nid yw'r datganiad yn dod i ben yn awtomatig. Tra bo'r datganiad yn cael ei gynnal, rhaid iddo gael ei adolygu'n flynyddol, gan ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir ym Mhennod 9 o God Ymarfer AAA Cymru. Rhoddir dolen i God Ymarfer AAA Cymru isod. Mewn llawer o amgylchiadau, bydd anghenion addysgol arbennig y plentyn a nodir yn y datganiad wedi bod yn gysylltiedig â'r ysgol, ac efallai bydd anghenion y plentyn yn cael eu diwallu yn y cartref gan y rhieni heb oruchwyliaeth yr awdurdod lleol. Unwaith y pennir bod anghenion arbennig plentyn yn cael eu diwallu heb unrhyw gymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol, gallai fod yn briodol ystyried dod â'r datganiad i ben. Dim ond os yw'r awdurdod lleol yn credi nad yw mwyach yn angenrheidiol cynnal datganiad i blentyn y gall roi'r gorau i'w gynnal. I gael mwy o wybodaeth, ewch i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru drwy ddilyn y ddolen isod:

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-en.pdf>

I blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref sydd â datganiad AAA, rhaid i'r rheini wneud darpariaeth addas ar gyfer anghenion arbennig y plentyn. Gallai'r ddarpariaeth hon fod yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn y datganiad a fyddai'n berthnasol mewn ysgol. Yr unig beth sy'n angenrheidiol i'r rhieni wneud yw darparu addysg sy'n effeithlon i oedran, gallu a dawn y plentyn, ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn, fel a amlinellir yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

Nid yw Adran 324(4A) o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud i enw ysgol gael ei ddarparu yn Rhan 4 o'r datganiad os yw rhiant y plentyn wedi gwneud trefniadau addas i'r ddarpariaeth addysgol benodol gael ei gwneud. Dylai cynnal trafodaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni ac, yn hytrach nag enw'r ysgol, dylai Rhan 4 y datganiad sôn am y math y byddai'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn addas ond gan fwrw ymlaen i ddweud: "mae'r rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan system 7 o Ddeddf Addysg 1996". Gall y datganiad hefyd fanylu ar unrhyw ddarpariaeth y mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i'w gwneud o dan adran 319 o'r Ddeddf honno i helpu'r rhieni i ddarparu addysg addas ar gyfer eu plentyn yn y cartref.

Os yw trefniadau'r rhieni yn addas, ni fydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad. Ond os nad yw trefniadau'r rhieni ar gyfer addysgu eu plentyn yn y cartref yn ddigonol i ddiwallu anghenion y plentyn, nid yw'r rhieni yn gwneud trefniadau addas ac nid yw'r awdurdod lleol yn cael ei ryddhau o'i gyfrifoldeb i drefnu'r ddarpariaeth yn y datganiad. Mewn rhai achosion, gallai fod mai cyfuniad o ddarpariaeth gan rieni a'r awdurdod lleol fyddai orau i ddiwallu anghenion y plentyn.

4.3 Rhannu arferion da

Fel mewn meysydd eraill, dylai swyddogion awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am Addysg Ddewisol yn y Cartref fod yn rhan o rwydweithiau perthnasol. Gall rhwydweithiau fod yn ffynhonnell bwysig o gymorth i swyddogion awdurdod lleol. Gallant gyfrannu at ddatblygu ymagweddau cyson yn rhanbarthol a chenedlaethol, a gallant alluogi rhannu arferion da.

Ceir enghreifftiau o rwydweithiau lleol a chenedlaethol yn datblygu yn ddiweddar. Mae rhai swyddogion awdurdod lleol yn cwrdd yn unol â'u trefniadau rhanbarthol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft o rwydwaith a gaiff ei gadeirio gan swyddogion awdurdod lleol o Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae nifer o gynrychiolwyr awdurdod lleol yn mynychu'r rhwydwaith hwn a mae hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o rai grwpiau Addysg Ddewisol yn y Cartref.

5. Lles plant

Er bod rhai swyddogion awdurdod lleol wedi lleisio barn gadarnhaol ynglŷn â'r berthynas sydd ganddynt gyda'r mwyafrif o rieni Addysg Ddewisol yn y Cartref, mynegwyd pryderon yn gyson ynghylch 'teuluoedd na ellir eu cyrraedd'. Y mae'n fater o bryder mawr i lawer o swyddogion awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio Addysg Ddewisol yn y Cartref bod rhai plant a phobl ifanc yn byw yn ardal eu hawdurdod lleol nad ydynt yn ymwybodol, neu nad ydynt wedi gallu eu gweld. Mae teuluoedd yn aml yn symud i ardal a heb fod i ysgol leol neu'n gwrthod ymwneud â'r awdurdod lleol. Mae dilyn olrhain plant a sicrhau eu bod yn ddiogel yn her wirioneddol i awdurdodau lleol. Bydd plant sy'n Mynychu'r Ysgol yn dod i gyswllt ag ystod eang o weithwyr proffesiynol addysg ac eraill, a chan bob un ohonynt gyfrifoldeb allweddol am ddiogelu ac amddiffyn plant. Diffyg gwelededd rhai o blant Addysg Ddewisol yn y Cartref sy'n aml yn peri pryder i lawer o swyddogion lleol sy'n cynorthwyo'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Drwy gynnal cyswllt a rhoi cymorth cadarnhaol i rwydweithiau Addysg Ddewisol yn y Cartref, mae rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i weithio gyda'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref wrth fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn astudiaeth achos Pen-y-bont ar Ogwr (gweler Ffigur 4) mae rhieni Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Un o brif ganlyniadau'r berthynas gadarnhaol â'r awdurdod lleol yw'r arfer adeiladol o weithio mewn partneriaeth. Mae mwy o deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref felly bod wedi eisiau ymwneud ag ystod eang ac arloesol o gyfleoedd dysgu. Gan amlaf, bydd nifer fawr o blant a phobl ifanc yn cyrraedd, yn cael proffesiadau dysgu cadarnhaol ac yn cael eu gweld gan amrywiaeth o weithwyr addysg proffesiynol.

Nid yw penderfyniad rhiant i addysgu yn y cartref ynddo'i hun yn rheswm i bryderu am les y plentyn. Ond, fel yn achos plant sy'n derbyn addysg mewn ysgol, gall pryderon mewn perthynas ac amddiffyn plant godi yn achos plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Mae'r cyfrifoldebau cyfreithiol a roddwyd ar Fyrddau Diogelu Plant a sefydlwyd gan yr Awdurdodau Lleol a'u hasiantaethau partner – gan gynnwys byrddau iechyd lleol, Prif Swyddogion yr heddlu a'r gwasanaeth prawf – yn berthnasol i bob plentyn yn ardal yr awdurdod lleol.

Er nad yw'n gyfreithiol ofynnol i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol am eu penderfyniad i addysgu yn y cartref, y mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi plant yn eu hardal nad ydynt wedi eu cofrestru gydag ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas heblaw mewn ysgol (gweler gwybodaeth am y sefyllfa gyfreithiol yn Adran 2). Gall fod nad yw'r awdurdodau lleol yn ymwybodol bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref, er enghraifft am fod y rhieni wedi dewis peidio â rhoi gwybod i'r awdurdod lleol neu eu bod wedi symud i'r ardal heb roi gwybod i unrhyw wasanaethau'r awdurdod lleol. I gael mwy o wybodaeth am ddyletswyddau awdurdodau lleol ynghylch plant nad ydynt mewn addysg, gweler *Canllawiau Statudol i Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg*, Llywodraeth Cymru.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy>

Gall pryderon godi pan fo rhiant yn datgan bwriad i addysgu yn y cartref. Dyma enghreifftiau o achosion lle byddai'n briodol i'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol roi cyngor ar addasrwydd addysgu yn y cartref:

- Os yw plentyn neu aelod o'r teulu wedi cael ei nodi fel bod mewn angen;
- Os yw plentyn neu aelod o'r teulu wedi cael ei atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am resymau amddiffyn plant, a mae'r achos yn destun ymchwiliad;
- Os yw plentyn neu frawd neu chwaer ar y gofrestr amddiffyn plant;

Os yw plentyn neu aelod o'r teulu wedi cael ei atgyfeirio am resymau gofal ac amddiffyn, ac mae'r atgyfeiriad dan ystyriaeth;
Os yw'n ofynnol i'r plentyn fod dan oruchwyliaeth.

Gall rhieni ddewis cyflogi pobl eraill i ddarparu rhai agweddau ar addysg eu plentyn, er mai hwy fydd yn dal i ddarparu'r rhan fwyaf o addysg y plentyn eu hunain, ac yn parhau i fod yn gyfrifol am yr addysg a ddarperir gan eraill. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai a ddefnyddiant yn unigolion addas i ddod i gyswllt â phlant. Rhoddir arweiniad ar faterion allweddol i'w hystyried wrth benodi unigolion sy'n gweithio gyda phlant yn nogfen ganllawiau rhif 158/2015 Llywodraeth Cymru: 'Cadw dysgwyr yn ddiogel'.

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

Ni ellir ystyried hwn yn ganllaw holl-gynhwysfawr a mater i rieni fydd penderfynu ar faterion o addasrwydd. Gall fod achlysuron pan fo rhieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref yn trefnu digwyddiadau grŵp gyda rhieni o'r un meddylfryd. Mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r dulliau i ddod â phryderon ynghylch lles plant neu oedolion at sylw awdurdodau statudol.

Dylai swyddogion awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig am gyflawni dyletswyddau diogelu mewn addysg, wrth hyrwyddo eu rôl, sicrhau nad yw eu manylion wedi'u cyfyngi i ysgolion yn y sector a gynhelir.

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi gwneud ymholiadau anffurfiol yn y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref ynglŷn â theuluoedd nad ydynt yn wybyddus i'r awdurdod lleol yn ffurfiol. Sail yr ymholiadau hyn oedd pennu p'un a oedd unrhyw bryderon ynghylch lles y plant ai peidio. Er nad oedd unrhyw bryderon yn yr achosion hyn, roedd sianeli cyfathrebu effeithiol gydag aelodau dylanwadol o'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi sicrhau y cafwyd sgwrs adeiladol i sicrhau ymagwedd gydweithredol at bryderon posibl ynglŷn â lles. Dyma fantais bwysig o berthynas waith gadarnhaol.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn tynnu sylw at yr ymagwedd ofynnol at weithio gyda theuluoedd mewn achosion o bryder am les plentyn:

www.awcpp.org.uk

5.1 Rhannu gwybodaeth

Mae amddiffyn plant rhag camdriniaeth neu esgeulustod, ynghyd â'r angen ehangach am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn effeithiol, cydweithredu a dealltwriaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol. Mae'n hanfodol bod gan wasanaethau awdurdodau lleol a'u partneriaid brosesau rhannu gwybodaeth effeithiol yn eu lle.

Mae rhannu gwybodaeth effeithiol gan weithwyr proffesiynol yn ganolog i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae rhannu gwybodaeth fel hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at y newid o ran mynd i'r afael ag anghenion plant ar gam cynnar yn hytrach na phan fo problemau difrifol wedi datblygu.

Dylai hefyd gynnwys bod â systemau, safonau a phrotocolau a gytunwyd yn eu lle i rannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu oddi mewn i asiantaeth a rhwng asiantaethau. Dylai'r protocolau hyn fod yn cyd-fynd ag unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth yn ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru, gweler Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI):

www.waspi.org/

5.2 Cyrchoedd triwantiaid

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiaid, gan gynnwys swyddogion yr heddlu, fod yn ymwybodol y gallai fod rhesymau dilys pam nad yw plant o oedran ysgol yn yr ysgol. Yn benodol, gallent ddod i gyswllt â plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac nad yw'n ofynnol i'r plant hyn fod yn yr ysgol.

Ni ddylid gweithredu ymhellach pan fo plant yn dweud eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref oni bai bod rheswm i amau bod hyn yn wir. Bydd angen i rieni sy'n addysgu yn y cartref fod yn ymwybodol y bydd angen i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chyrchoedd triwantiaid wirio unrhyw wybodaeth a roddir iddynt yn yr amgylchiadau hyn. I sicrhau bod hon yn broses gyflym ac effeithlon, byddai'n syniad da i'r awdurdod lleol gadw rhestr o bob plentyn o oedran ysgol sy'n wybyddus iddynt sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Gall staff yr awdurdod lleol wedyn wirio'r rhestr hon rhan o gyrch triwantiaid. I gael mwy o wybodaeth am arferion da mewn perthynas â chyrchoedd triwantiaid, gweler Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan, sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/attendance-framework/?lang=cy>

6. Casgliad

Mae'r ddogfen atodedig yn eich gwahodd i fynegi eich barn ar gwestiynau penodol. Fe'ch gwahoddir i roi atebion i'r cwestiynau hyn neu i roi sylw yn fwy cyffredinol, yn ysgrifenedig neu mewn print, yn electronig neu ar ffurf copi caled, i'r cyfeiriad ar ddechrau ffurflen ymateb yr ymgynghoriad.